

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Digwyddiadau allweddol yn y broses o
ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Trydydd Cynulliad: 2007 - 2011

Mae'r papur hwn yn darparu amlinelliad o ddyddiadau allweddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod yr Ail Gynulliad.

Mae'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau gweinyddol a threfniadaeth ond mae hefyd yn cyfeirio at rhai datblygiadau gwleidyddol a pholisi nodweddiadol.

**Gwasanaeth
Ymchwil**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Digwyddiadau allweddol yn y broses o
ddatblygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trydydd Cynulliad: 2007 - 2011



Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

2007	1
Mai	3
Mehefin	4
Gorffennaf	4
Medi	6
Hydref	6
Tachwedd	7
2008	9
Ionawr	11
Chwefror	11
Mawrth	11
Ebrill	12
Mai	12
Mehefin	12
Gorffennaf	12
Hydref	13
Tachwedd	13
2009	15
Mawrth	17
Mai	17
Mehefin	17
Gorffennaf	17
Medi	17
Hydref	18
Tachwedd	18
Rhagfyr	18

2010	21
Chwefror	23
Mawrth.....	23
Mai	23
Mehfin	24
Gorffennaf.....	24
Medi	24
Hydref	24
Tachwedd.....	25
Rhagfyr	26
2011	27
Ionawr	29
Chwefror	29
Mawrth.....	29
Mawrth.....	30
Ebrill	30
Mai	30



**Digwyddiadau allweddol
yn y broses o ddatblygu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

2007



Mai

3 Mai

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(Canlyniadau'r etholiad)

9 Mai

Cyfarfod Llawn cyntaf y Trydydd Cynulliad.

- Etholir yr Arglwydd Elis-Thomas yn Llywydd
- Rosemary Butler AC yn Ddirprwy Lywydd.

(Cofnod y Trafodion)

25 Mai

Etholir Rhodri Morgan AC yn Brif Weinidog Cymru.

(Cofnod y Trafodion)

31 Mai

Prif Weinidog Cymru'n cyhoeddi aelodau'r Cabinet newydd ar gyfer trydydd tymor Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Edwina Hart AC
- Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg - Carwyn Jones AC
- Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth - Dr Brian Gibbons AC
- Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig - Jane Davidson AC
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus - Andrew Davies AC
- Y Gweinidog dros Gyllideb a Rheoli Busnes - Jane Hutt AC

Yn ychwanegol at y chwe swydd uchod yn y Cabinet, penodir Carl Sargeant AC yn Brif Chwip ac yn Ddirprwy Drefnydd

(Datganiad i'r wasg)

Cyhoeddir enwau'r Dirprwy Weinidogion newydd gan Brif Weinidog Cymru:

- Yr Economi a Thrafnidiaeth (gyda chyfrifoldeb arbennig am adfywio) - Huw Lewis AC
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (gyda chyfrifoldeb arbennig am wasanaethau cymdeithasol) - Gwenda Thomas AC
- Cyfiawnder Cymdeithasol a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (gyda chyfrifoldeb arbennig am dai) - Leighton Andrews AC
- Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg (gyda chyfrifoldeb arbennig am sgiliau) - John Griffiths AC.

(Datganiad i'r wasg)

Mehffin

5 Mehefin

Agoriad Swyddogol y trydydd Cynulliad, a fynychir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, Ei Fawrhydi Brenhinol Dug Caeredin, Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru a'i Mawrhydi Brenhinol Duges Cernyw.

(Cofnod y Trafodion)

6 Mehefin

Etholir Comisiynwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Lorraine Barrett AC (Llafur)
- Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol)
- William Graham AC (Ceidwadwyr)
- Elin Jones AC (Plaid Cymru).

Cadeirydd y Comisiwn yw'r Llywydd, yr Arglwydd Elis-Thomas AC.

(Cofnod y Trafodion)

12 Mehefin

Cyflwynir y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf, sef **Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant)**.

(Cofnod y Trafodion)

26 Mehefin

Etholir aelodau pwyllgorau newydd y Cynulliad.

(Cofnod y Trafodion)

27 Mehefin

Cyhoeddir cytundeb *Cymru'n Un* gan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru.

Gorffennaf

2 Gorffennaf

Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno'r Mesur Cynulliad cyntaf - y **Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru)**.

11 Gorffennaf

Penodir cadeiryddion newydd pwyllgorau'r Cynulliad.

(Datganiad i'r wasg)

Penodir Ieuan Wyn Jones AC yn Ddirprwy Brif Weinidog.

(Datganiad i'r wasg)

Comisiwn y Cynulliad yn lansio ei gynllun iaith Gymraeg newydd.

(Datganiad i'r wasg)

19 Gorffennaf

Cyhoeddir aelodau Cabinet Cymru'n Un:

- Prif Weinidog Cymru - Rhodri Morgan AC
- Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth - Ieuan Wyn Jones AC
- Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus - Andrew Davies AC
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - Brian Gibbons AC
- Y Gweinidog dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc - Jane Hutt AC
- Y Gweinidog dros Faterion Gwledig - Elin Jones AC
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Edwina Hart AC
- Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Thai - Jane Davidson AC
- Y Gweinidog dros Dreftadaeth - Rhodri Glyn Thomas AC
- Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ, gyda chyfrifoldeb am fusnes y Cynulliad a Chyfathrebu - Carwyn Jones AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol - Gwenda Thomas AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Dai - Jocelyn Davies AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau - John Griffiths AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio - Leighton Andrews AC.

(Datganiad i'r wasg)

Medi

11 Medi

Y Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, yn cyfarfod llywyddion Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Dyma'r cyfarfod ffurfiol cyntaf o'i fath i gael ei gynnal ers 2002.

(Datganiad i'r wasg)

18 Medi

Penodir Chris Franks AC (Plaid Cymru) yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad ar ôl i Elin Jones AC gael ei phenodi'n Weinidog dros Faterion Gwledig.

(Cofnod y Trafodion)

Penodir Carwyn Jones AC yn Gwnsler Cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn.

(Cofnod y Trafodion)

Penodir aelodau pwyllgorau'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn yn sgîl y penodiadau a wnaed i Gabinet Llywodraeth Cymru.

(Cofnod y Trafodion)

Y Cynulliad yn nodi dengmlwyddiant y refferendwm ar ddatganoli ym 1997.

(Datganiad i'r wasg)

20 Medi

Cynhelir y cyfarfod cyntaf i graffu ar Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Caiff Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant), sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, ei ystyried gan bwyllgor o Aelodau'r Cynulliad.

- **(Trafodion y Pwyllgor)**
- **(Datganiad i'r wasg)**

Hydref

16 Hydref

Y Cynulliad yn derbyn y cynnig i sefydlu Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Etholir Lynne Neagle AC, Christine Chapman AC, Helen Mary Jones AC, Angela Burns AC ac Eleanor Burnham AC yn aelodau'r pwyllgor. **(Cofnod y Trafodion)**

17 Hydref

Pwyllgor Menter a Dysgu y Cynulliad yn cynnal sesiwn craffu sydd yn torri ar draws nifer o bynciau am y tro cyntaf. Y bwriad yw y bydd tri Gweinidog yn cael eu holi am faterion sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor caelThe National Assembly's Enterprise and Learning Committee hold the Assembly's first ever cross-cutting scrutiny session. Three Welsh Government Ministers are scheduled to be scrutinised on issues within the Committee's remit.

- **(Trafodion y Pwyllgor)**
- **(Datganiad i'r wasg)**

Tachwedd

24 Hydref

Croesewir y 500,000fed ymwelydd i'r Senedd ers i'r adeilad agor ym mis Chwefror 2006.

7 Tachwedd

Y Cynulliad yn derbyn y cynnig i sefydlu pwyllgor rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

(Cofnod y Trafodion)

15 Tachwedd

Etholir Helen Mary Jones AC yn Gadeirydd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad.

(Trafodion y Pwyllgor)



**Digwyddiadau allweddol
yn y broses o ddatblygu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

2008



Ionawr

17 Ionawr

Cynhelir y cyfarfod ar y cyd cyntaf rhwng Pwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad a Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin er mwyn iddynt graffu ar Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ynghylch gofal yn y cartref.

(Trawsgrifiad y cyfarfod)

29 Ionawr

Y Cynulliad yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG yn y Cyfarfod Llawn. Dyma'r Mesur arfaethedig cyntaf i gwblhau cam cyntaf y broses deddfwriaethol.

(Cofnod y Trafodion)

31 Ionawr

Is-lywydd yr Undeb Ewropeaidd, Margot Wallström, yn ymweld â'r Cynulliad ac yn annerch pwyllgor o'r Cynulliad cyfan yn y Siambr.

(Trafodion y Cyfarfod)

Chwefror

5 Chwefror

Y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant), sy'n ymdrin ag anghenion addysgol arbennig, yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

(Cofnod y Trafodion)

18 Chwefror

Cyflwynir y Gorchymyn arfaethedig cyntaf a gynigir gan Aelod, sef **Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd) 2008**, ynghylch iechyd meddwl, gan Jonathan Morgan AC.

Mawrth

14 Mawrth

Cyflwynir y Mesur arfaethedig cyntaf a gynigir gan Aelod, sef y **Mesur Arfaethedig ynghylch Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Cymru)**, gan Jenny Randerson AC.

Ebrill

9 Ebrill

Y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol cyntaf, sef **Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008**, sy'n trosglwyddo pwerau i greu deddfau ym maes anghenion addysgol arbennig yng Nghymru, yn cael Cymeradwyaeth Frenhinol gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

(Datganiad i'r wasg)

15 Ebrill

Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Senedd De Cymru Newydd, yr Anrhydeddus Richard Torbay, yn ymweld â'r Cynulliad.

17 Ebrill

Siambwr Hywel, sef canolfan addysgol ryngweithiol y Cynulliad, sy'n cynnwys y siambwr ddadlau gyntaf yn Ewrop ar gyfer pobl ifanc, yn agor yn hen Siambwr y Cynulliad yn Nhŷ Hywel.

(Datganiad i'r wasg)

Mai

6 Mai

Y Mesur Cynulliad cyntaf yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Y Mesur ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 yw'r darn cyntaf o deddfwriaeth gynradd i gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

(Cofnod y Trafodion)

Mehafin

26 Mehefin

Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru yn ymweld â'r Cynulliad i agor Siambwr Hywel yn swyddogol.

Gorffennaf

9 Gorffennaf

Y Mesur Cynulliad cyntaf, y **Mesur ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008**, yn dod yn rhan o gyfraith Cymru ar ôl cael Cymeradwyaeth Frenhinol gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

(Datganiad i'r wasg)

18 Gorffennaf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cyhoeddi ei **Adroddiad Blynyddol** cyntaf, ar gyfer 2007-08.

(Datganiad i'r wasg)

22 Gorffennaf

Alun Ffred Jones AC yn cael ei benodi'n Weinidog dros Dreftadaeth, gyda chyfrifoldeb am ddiwylliant, yr iaith Gymraeg a chwaraeon.

Hydref

13 Hydref

Cyhoeddir canlyniadau llawn **Arolwg Barn y Cyhoedd 2008** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyflawnwyd gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru Prifysgol Aberystwyth a GfKNOP.

(Datganiad i'r wasg)

15 Hydref

Arlywydd Estonia, Mr Toomas Hendrik Ilves, yn annerch y Cynulliad.

(Cofnod y Trafodion)

Tachwedd

13 Tachwedd

Ei Fawrhydi Brenin Letsie III o Lesotho yn ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

(Datganiad i'r wasg)

24 Tachwedd

Caiff cynllun cydraddoldebau newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei lansio.

(Datganiad i'r wasg)

26 Tachwedd

Nerys Evans, Aelod Cynulliad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, yw'r person cyntaf i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn swyddogol ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.



**Digwyddiadau allweddol
yn y broses o ddatblygu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

2009



Mawrth

25 Mawrth

Cyflwynir y Mesur cyntaf a gynigir gan bwyllgor, sef **Mesur arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Fe'i cyflwynir gan Bwyllgor Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl cyfnod o ymgynghori.

Mai

12 Mai

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dathlu ei ddengmlwyddiant.

Mehafin

29 Mehefin

Croesewir y 750,000fed ymwelydd i'r Senedd ers iddi agor ym mis Chwefror 2006.

Cofrestr ar-lein o geisiadau Aelodau'r Cynulliad am dreuliau yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gorffennaf

6 Gorffennaf

Cyhoeddir **adroddiad y panel adolygu annibynnol**, Yn Gywir i Gymru, ynghylch y trefniadau ar gyfer darparu cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

8 Gorffennaf

Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i adroddiad y panel adolygu annibynnol ac yn derbyn yr holl argymhellion ynddo.

(Datganiad y Llywydd)

14 Gorffennaf

Llefarydd Tŷ'r Cynrychiolwyr yn Senedd Awstralia, Syr Harry Jenkins, yn ymweld â'r Cynulliad.

(Datganiad i'r wasg)

16 Gorffennaf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cyhoeddi ei **(Adroddiad blynyddol ar gyfer 2008-09)**

Medi

30 Medi

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, y Gwir Anrh. John Bercow AS, yn ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Hydref

15 Hydref

Mesur Jenny Randerson AC, sef y ***Mesur ynghylch Bwyta'n lach mewn Ysgolion (Cymru) 2009***, yw'r Mesur arfaethedig cyntaf a gafodd ei gyflwyno gan Aelod mainc gefn i gael Cymeradwyaeth Frenhinol, gan ddod yn rhan o gyfraith Cymru.

19 Hydref

Cyflwynir Mesur arfaethedig cyntaf Comisiwn y Cynulliad - ***Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010***.

Tachwedd

18 Tachwedd

Cyhoeddir **adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan** ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

Rhagfyr

8 Rhagfyr

Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC, yn datgan yn y Cyfarfod Llawn ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w swydd fel Prif Weinidog ac Arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru.
(Cofnod y Trafodion)

9 Rhagfyr

Etholir Carwyn Jones AC yn Brif Weinidog Cymru yn y Cyfarfod Llawn.
(Cofnod y Trafodion)

Mesur arfaethedig cyntaf y Cynulliad i gael ei gynnig gan bwyllgor, sef ***Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009***, yn cael Cymeradwyaeth Frenhinol.

10 Rhagfyr

Y Prif Weinidog newydd, Carwyn Jones AC, yn cyhoeddi aelodau ei Gabinet newydd:

- Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth – Ieuan Wyn Jones AC
- Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb - Jane Hutt AC
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Edwina Hart AC
- Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai – Jane Davidson AC
- Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes – Leighton Andrews AC
- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol – Carl Sargeant AC
- Y Gweinidog dros Faterion Gwledig – Elin Jones AC
- Y Gweinidog dros Dreftadaeth – Alun Ffred Jones AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Arloesi a Gwyddoniaeth – Lesley Griffiths AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio – Jocelyn Davies AC
- Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwenda Thomas AM
- Y Dirprwy Weinidog dros Blant – Huw Lewis AM
- Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol – John Griffiths AC
- Y Prif Chwip – Janice Gregory AC.



**Digwyddiadau allweddol
yn y broses o ddatblygu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

2010



Chwefror

9 Chwefror

Y Cynulliad yn pleidleisio o blaid cynnig yn y Cyfarfod Llawn i argymhell y dylid cynnal refferendwm ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

(Cofnod y Trafodion)

Mawrth

1 Mawrth

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cyfarfod yn adeilad Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel i glywed tystiolaeth gan y pedwar Aelod o Senedd Ewrop dros Gymru.

(Cofnod y Cyfarfod)

Adeilad y Pierhead yn agor ar ei newydd wedd. Mae'n cynnwys lle arddangos, a gellir cynnal digwyddiadau'r Cynulliad yno ynghyd â digwyddiadau i'r cyhoedd. Cynhelir gŵyl tri diwrnod, Sesiynau'r Pierhead, i ddathlu'r achlysur.

Mai

6 Mai

Etholiad Cyffredinol y DU. Caiff un Aelod Cynulliad, sef Alun Cairns AC (Ceidwadwyr, Canol De Cymru), ei ethol i Dŷ'r Cyffredin fel Aelod Seneddol dros etholaeth Bro Morgannwg. Nid oes gan unrhyw blaid fwyafrif yn Senedd y DU yn dilyn yr etholiad. O ganlyniad, caiff Llywodraeth Glymblaid ei ffurfio gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae'r Llywodraeth Glymblaid yn cynnwys addewid yn ei rhaglen lywodraethu i gynnal refferendwm ar ddatganoli pellach yng Nghymru.

12 Mai

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Jonathan Morgan AC ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl, sef **Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Lles Cymdeithasol) 2010** yw'r Gorchymyn arfaethedig cyntaf a gynigwyd gan Aelod mainc gefn i gael Cymeradwyaeth Frenhinol gan Ei Mawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor.

Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 yw'r 10fed Mesur i gael Cymeradwyaeth Frenhinol.

19 Mai

Cyhoeddir **adroddiad y Panel Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog**. Mae argymhellion yr adroddiad, sy'n amlinellu ffurf gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad yn y dyfodol, yn cael eu derbyn gan Gomisiwn y Cynulliad.

27 Mai

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n lansio ymgynghoriad ar ei Reolau Sefydlog gyda golwg ar y pedwerydd Cynulliad.

Mehefin

Mehefin 16

Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, y Gwir Anrh. Cheryl Gillan AS, yn annerch y Cynulliad. Ar ôl yr anerchiad cynhelir dadl ar raglen deddfwriaethol Llywodraeth y DU.

(Cofnod y Trafodion)

Gorffennaf

2 Gorffennaf

Veronica German AC yn tyngu llw fel Aelod newydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer rhanbarth De Ddywrain Cymru. Mae hi'n cymryd lle Mike German, sydd wedi'i dderbyn yn Aelod o Dŷ'r Arglwyddi.

(Datganiad i'r wasg)

21 Gorffennaf

Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yw'r Mesur arfaethedig cyntaf a gynigwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i gael Cymeradwyaeth Frenhinol. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu panel annibynnol a fydd yn gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad.

Medi

2 Medi

Y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi ei **adroddiad** ar y cwestiwn arfaethedig ar gyfer y refferendwm ar ehangu pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

22 Medi

Y Cynulliad Cenedlaethol yn penodi Cadeirydd ac aelodau **Bwrdd Taliadau'r Cynulliad**.

(Datganiad i'r wasg)

30 Medi

Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, José Manuel Barroso, yn ymweld â'r Cynulliad.

(Datganiad i'r wasg)

Hydref

6 Hydref

Ei Mawrhydi'r Frenhines Masenate Mohato Seeiso o Deyrnas Lesotho yn ymweld â'r Cynulliad.

14 Hydref

Bwrdd Taliadau'r Cynulliad yn cyfarfod am y tro cyntaf. **Cofnodion**

21 Hydref

Llywodraeth Cymru'n cyflwyno'r Gorchymyn sy'n darparu ar gyfer cynnal refferendwm ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad. Mae **Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Refferendwm Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm etc.) 2010** yn pennu 3 Mawrth 2010 fel diwrnod y bleidlais ac yn cynnwys y cwestiwn a fydd yn cael ei ofyn ar y papur pleidleisio.

Tachwedd

9 Tachwedd

Y Cynulliad yn cymeradwyo Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Refferendwm Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, etc) 2010 yn y Cyfarfod Llawn.

(Cofnod y Trafodion)

17 Tachwedd

Gerard Elias QC yn cael ei benodi'n Gomisiynydd Safonau annibynnol y Cynulliad.

22 Tachwedd

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, y Gwir Anrh. Danny Alexander AS, yn rhoi tystiolaeth lafar i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar oblygiadau Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU i Gymru.

(Trawsgrifiad y Cyfarfod)

24 Tachwedd

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Gwelliant i Atodlen 7 Deddf Ilywodraeth Cymru 2006) 2010 yn cael ei gymeradwyo yn Nhy'r Cyffredin **(Hansard)**

25 Tachwedd

Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Refferendwm Cymru (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm, etc) 2010 a Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Refferendwm (Darpariaethau Deddf Cynulliad) (Cyfyngu ar Dreuliau'r Refferendwm, etc) 2010 yn cael eu cymeradwyo yn Nhy'r Cyffredin **(Hansard)** ac yn Nhy'r Arglwyddi. **(Hansard)**

30 Tachwedd

Caiiff aelodaeth pwyllgorau ei diwygio yn y Cyfarfod Llawn. Etholir Jonathan Morgan AC a Nick Ramsay AC yn aelodau o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol; Darren Millar AC yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; a David Melding AC yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5.

(Cofnod y Trafodion)

Rhagfyr

1 Rhagfyr

Etholir Jonathan Morgan AC yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol.

7 Rhagfyr

Y Cynulliad yn cymeradwyo *Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2010* yn y Cyfarfod Llawn **(Cofnod y Trafodion)**

15 Rhagfyr

Caiff Gorchymyn y refferendwm gydsyniad y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor, sy'n dynodi dechrau swyddogol y cyfnod refferendwm. Cynhelir y refferendwm ar 3 Mawrth 2011.

Rhoddir Cymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor i Fesur Dai Lloyd AC ar Gaeau Chwarae 2010. *Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010* yw'r ail Fesur arfaethedig a gyflwynwyd gan Aelod mainc gefn i gael Cymeradwyaeth Frenhinol.

**Digwyddiadau allweddol
yn y broses o ddatblygu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

2011



Ionawr

20 Ionawr

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais i fod yn un o'r prif grwpiau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad. Cyflwynir dau gais.

(Datganiad y Comisiwn Etholiadol)

25 Ionawr

Y Comisiwn Etholiadol yn datgan na fydd yn penodi prif grwpiau ymgyrchu swyddogol ar gyfer y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad.

(Datganiad y Comisiwn Etholiadol)

27 Ionawr

Y Comisiwn Etholiadol yn lansio **ymgyrch genedlaethol i hysbysu'r cyhoedd** am y refferendwm ar bwerau deddfu'r Cynulliad.

Chwefror

9 Chwefror

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cael Cymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyfrin Gyngor.

Mawrth

3 Mawrth

Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhoddir y cwestiwn a'r dewisiadau canlynol ar y papur pleidleisio: 'Ydych chi am i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar yr holl faterion yn yr 20 o feysydd pwnc y mae ganddo bwerau ar eu cyfer? Ydw / Nac ydw.'

4 Mawrth

Cyhoeddir canlyniadau swyddogol refferendwm 2011 ar bwerau'r Cynulliad: mae 63.5 y cant o'r etholwyr yn pleidleisio 'ydw', a 36.5 y cant yn pleidleisio 'nac ydw'. Y ganran a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 35.6 y cant.

(Papur ymchwil gan y Gwasanaeth Ymchwil ar ganlyniad y refferendwm)

8 Mawrth

Prif Weinidog Cymru'n gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn sy'n amlinellu'r camau nesaf i'w cymryd ar ôl y refferendwm (**Cofnod y Trafodion**). Gosodir Gorchymyn cychwyn Deddfau'r Cynulliad gerbron y Cynulliad.

15 Mawrth

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniad ynglŷn â thaliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, ac yn cyhoeddi ei adroddiad *Addas i'r Diben*

(Gweler yr Adroddiad)

Mawrth

16 Mawrth

Y Cynulliad yn derbyn cynnig yn y Cyfarfod Llawn i wahodd Llywodraeth y DU i bennu dydd lau 5 Mai 2016 fel dyddiad etholiad nesaf y Cynulliad ar ôl etholiad 2011. Mae'n gwneud hynny oherwydd y gwrthdaro posibl rhwng etholiadau'r DU ac etholiadau'r Cynulliad yn 2015.

(Cofnod y Trafodion)

Yn yr un cyfarfod, mae'r Cynulliad yn derbyn y cynnig i ail-wneud **Rheolau Sefydlog y Cynulliad** (pdf). Daw'r Rheolau Sefydlog newydd i rym ar 5 Mai 2011.

(Cofnod y Trafodion)

29 Mawrth

Cymeradwyir **Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011** yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r Gorchymyn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a bydd yn galluogi'r Cynulliad i wneud Deddfau yn hytrach na Mesurau, a hynny o'r pedwerydd Cynulliad ymlaen.

(Cofnod y Trafodion)

30 Mawrth

Cynhelir Cyfarfod Llawn olaf y Trydydd Cynulliad, yn y Siambr.

(Cofnod y Trafodion)

31 Mawrth

Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddiddymu am hanner nos ar 31 Mawrth 2011. Dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad gael ei ddiddymu cyn etholiad. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oes Aelodau Cynulliad ac ni fydd busnes yn y Cynulliad.

Ebrill

1 Ebrill

Telir teyrngedau i'r diweddar Brynle Williams, Aelod Cynulliad dros ranbarth Gogledd Cymru.

Mai

4 Mai

Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



15:27